



Annwyl Gadeirydd,

17^{eg} Ionawr 2022

Diolch am y cyfle i roi tystiolaeth i [Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith](#) (“y Pwyllgor”) y Senedd fel rhan o'i waith ar ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion.

Fel cwmni, gwerthfawrogwn y ffaith bod Cymru yn enwog am ansawdd amgylcheddol ei thirwedd, afonydd a moroedd, sy'n denu ymwelwyr ac yn cefnogi ein diwydiannau allweddol. Mae cynnal yr enw da rhagorol hwn ar ran pobl Cymru yn bwysig i'n llesiant a'n llwyddiant economaidd parhaus. Fel y cwmni dŵr mwyaf yng Nghymru, rydym yn dibynnu ar amgylchedd iach – yn ein hafonydd a thu hwnt – er mwyn cynnal y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cwsmeriaid. Fel y cyfryw, mae angen inni ddiogelu ein hadnoddau naturiol a sicrhau cyn lleied o effaith niweidiol â phosibl arnynt. Er bod gennym record amgylcheddol gref ac sy'n gwella, mae bob amser yn siomedig pan fo'n gwaith yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd a byddwn bob amser yn ymchwilio i ddigwyddiadau o'r fath er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dysgu unrhyw wersi a fydd yn llywio ein ffordd o weithio yn y dyfodol.

Rydym yn anelu at gyrraedd y safonau uchaf ac mae ein perfformiad a'n strategaeth amgylcheddol yn ffocws allweddol i Fwrdd annibynnol Glas Cymru. Mae ei waith yn goruchwilio ac yn craffu ar Dŵr Cymru yn cael ei atgyfnerthu gan un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, sef y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd, ond hefyd mae Aelodau annibynnol Glas Cymru (gan nad oes gennym gyfranddalwyr) yn dwyn y Bwrdd i gyfrif am warchod ein hasedau a darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol

Rydym yn wynebu sawl her – fel y nodir isod – lle mae angen gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr, llywodraethau, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill er mwyn eu hateb yn llawn. Yn yr un modd, er bod gennym ran bwysig i'w chwarae yn gwella ansawdd dŵr afonydd fel y'i cesglir gan ymchwiliad y Pwyllgor, mae'n bwysig nodi mai dim ond cyfrannu at ran o'r gwelliant y gallwn ni ei wneud, gan fod angen i welliannau mwy sylweddol gael eu cyflawni gan sectorau eraill (yn fwyaf nodedig amaethyddiaeth, rheoli tir a dŵr o fwyngloddiau, sy'n cael mwy o effaith ar lygredd afonydd a'r methiant i gyrraedd safonau ansawdd dŵr 'Da').

Wrth inni baratoi ein Cynllun Busnes ar gyfer y cyfnod buddsoddi rheoleiddiol pum mlynedd nesaf (2025-2030, sef AMP8), rydym yn anelu at ddilyn trywydd 'Tîm Cymru' gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Ofwat a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn datblygu rhaglen fuddsoddi sy'n gwella ein

hamgylchedd, yn cynnal ein lefelau uchel o wasanaeth ac yn fforddiadwy nid yn unig i'n cwsmeriaid presennol, ond hefyd nad yw'n creu problemau (o ran gwasanaeth a chost) i gwsmeriaid y dyfodol. Mae ansawdd dŵr afonydd yn un ffactor y mae'n rhaid inni ei ystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes hwn. Gan ystyried effaith ehangach y newid yn yr hinsawdd ar ein rhwydwaith (h.y. tywydd eithafol) a'n hymrwymiad, fel un o'r defnyddwyr ynni mwyaf yng Nghymru, i ddod yn gwmni carbon sero net erbyn 2040, ni fyddwn yn gallu datrys yr holl broblemau rydym yn eu hwynebu yn y pum mlynedd nesaf. Gan gydweithio â'n rheoleiddwyr a'r llywodraeth, fodd bynnag, rydym yn hyderus y gallwn chwarae ein rhan a gwneud cynnydd da wrth helpu i wella ansawdd dŵr afonydd ond mewn ffordd sy'n gymesur, yn effeithiol ac am gost sy'n dderbyniol i'n cwsmeriaid.

Cyn ein tystiolaeth lafar, darparwn y cyflwyniad ysgrifenedig canlynol ac rydym yn fwy na pharod i ymateb i unrhyw bwyntiau eraill y gall yr Aelodau fod am eu codi yn y sesiwn casglu tystiolaeth ar 3 Chwefror 2022.

Dŵr Cymru – cefndir

Dŵr Cymru yw'r ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth statudol sy'n cyflenwi mwy na thair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyffiniol o Loegr. Hwyrach y byddwch yn ymwybodol mai ni yw'r unig gwmni dŵr nid er elw yng Nghymru a Lloegr ac am nad oes gennym unrhyw gyfranddalwyr, defnyddir unrhyw wargedau ariannol er budd cwsmeriaid Dŵr Cymru. Caiff ein hasedau a'n buddsoddiad cyfalaf eu hariannu gan fondiau a gwargedau ariannol a gedwir, ac mae'r model gweithredu hwn wedi ein galluogi i fuddsoddi £440 miliwn dros yr 20 mlynedd diwethaf (arian a fyddai wedi mynd i gyfranddalwyr yn y rhan fwyaf o gwmnïau dŵr eraill) mewn cyflymu buddsoddiadau, cadw biliau'n fforddiadwy a helpu mwy o gwsmeriaid i dalu eu biliau nag unrhyw gwmni dŵr arall.

Gweithredwn fusnes hynod ddwys o ran cyfalaf â sail asedau gwerth £30 biliwn sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau hanfodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae sail asedau mor eang yn golygu ein bod ar hyn o bryd yn buddsoddi tua £1 filiwn y dydd yn ein rhwydwaith ac rydym yn buddsoddi £1.8 biliwn dros y 5 mlynedd hyd at 2025 yn ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff a hefyd wneud popeth y gallwn i gadw biliau mor fforddiadwy â phosibl i gwsmeriaid.

Ein rhwydwaith dŵr gwastraff

Ardal weithredu Dŵr Cymru yw'r drydedd fwyaf o blith y cwmnïau dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Gan ein bod yn gweithredu yng nghefn gwlad yn bennaf, mae gennym nifer anghymesur o fawr o asedau dŵr gwastraff bach, y mae llawer ohonynt yn anghysbell. Rydym yn gweithredu mwy nag 830 o weithfeydd trin dŵr gwastraff, dros 36,000 cilomedr o garthffosydd a thua 2,500 o Orlifiannau Carthffosydd Cyfun. Cafodd y rhan fwyaf o'r asedau hyn eu hadeiladu yn y ganrif ddiwethaf; ein gweithfeydd trin carthion arfordirol yw'r asedau dŵr gwastraff mwyaf newydd a gafodd eu hadeiladu yn y 1990au a dechrau'r 2000au a gwnaeth trosglwyddo gorsafoedd pwmpio a charthffosydd preifat yn 2011 i Dŵr Cymru gwblhau'r darlun hwnnw.

Her allweddol i ni – fel cwmnïau dŵr eraill – yw sicrhau bod ein gwaith yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar afonydd, moroedd a'r amgylchedd ehangach. Mae ein hól troed amgylcheddol yn eang ac rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif, gan fuddsoddi £807 miliwn mewn gwella ein hasedau dŵr gwastraff yn ystod ein cynllun buddsoddi presennol (2020-25). Ategir y cynllun buddsoddi cyffredinol hwn gan Raglen Amgylcheddol Genedlaethol benodol, wedi'i datblygu ar y cyd â'n rheoleiddwyr amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru) fel ein bod yn cyflawni'r amcanion sector benodol a'r amcanion polisi a deddfwriaethol ehangach sydd wedi'u

pennu gan Lywodraeth Cymru. Caiff ein cynlluniau buddsoddi, targedau perfformiad a faint o refeniw y gallwn ei godi oddi wrth ein cwsmeriaid eu rheoleiddio a'u cymeradwyo gan Ofwat.

Yn ein hardal weithredu, mae'r buddsoddiad hwn yn cael ei lywio gan nodweddion arbennig ein hardal weithredu, sy'n ein gwneud yn wahanol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill, a dylid hefyd gofio hyn wrth ystyried sut rydym yn cynnal ein sail asedau, ac yn arbennig sut rydym yn darparu ein gwasanaethau dŵr gwastraff:

- nodweddir ein hardal weithredu gan arfordir cymharol hir (tua 15% o arfordir Prydain Fawr), sydd â goblygiadau i'n costau trin dŵr gwastraff;
- cafodd y gweithfeydd trin dŵr gwastraff ar gyfer hanner ein cwsmeriaid sy'n byw ar hyd yr arfordir eu hadeiladu yn y cyfnod ar ôl preifateiddio ac felly fe'i hariannwyd drwy filiau cwsmeriaid (nid yw hyn yn berthnasol i gwmnïau mewndirol ar y cyfan nad oedd angen iddynt wneud buddsoddiad o'r fath ar ôl i'r sector dŵr gael ei breifateiddio);
- gweithredwn mewn sawl ardal nodedig, wledig, fynyddig a phrin ei phoblogaeth, sy'n golygu mwy o asedau (e.e. gweithfeydd trin a hyd pibellau) fesul cwsmer;
- mae cryn nifer o draethau ymdrochi dynodedig ar hyd arfordir hir Cymru, sy'n golygu lefelau trwyddedu llym ar gyfer trin dŵr gwastraff;
- gan fod llawer o weithfeydd trin dŵr gwastraff llai o faint, mae rhaglenni i gyflawni gwaith uwchraddio amgylcheddol, megis y gallu i gael gwared ar ffosfforws, yn ddrutach ac yn peri heriau technegol i weithfeydd bach yng nghefn gwlad.

Gyda'i gilydd mae'r nodweddion hyn yn creu set unigryw o heriau wrth ddarparu gwasanaethau dŵr gwastraff o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae'r heriau hyn hyd yn oed yn fwy cymhleth o ystyried y ffocws cynyddol ymhlith cwsmeriaid a rheoleiddwyr ar faterion amgylcheddol, ond hefyd yr heriau hinsoddol ac economaidd-gymdeithasol ehangach a wynebwn heddiw fel cwmni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **newid yn yr hinsawdd;** gyda stormydd a glaw mwy dwys oherwydd y newid yn yr hinsawdd, mae faint o ddŵr ffo sy'n draenio o ardaloedd anhydraid i mewn i'n rhwydwaith yn cynyddu. Yn aml, gall hyn fod yn drech na'n hasedau traddodiadol na chawsant eu cynllunio i ymdopi â phatrymau tywydd mor eithafol;
- **newid yn yr hinsawdd – llai o law dros yr haf;** gwelir llif afonydd yn lleihau yn ystod cyfnodau sych sy'n ei gwneud yn fwy anodd iddynt amsugno'r elifion sydd wedi'u trin ar gyfer ein gweithfeydd trin carthion a pharhau i gyflawni eu hamcanion ansawdd amgylcheddol;
- **twf yn y boblogaeth;** mae'r boblogaeth wedi tyfu'n sylweddol sy'n golygu bod mwy o ddŵr gwastraff yn mynd i mewn i'n carthffosydd nawr nag erioed; mae llawer o'n gweithfeydd yn ardaloedd cefn gwlad y gogledd a'r gorllewin yn gweld amrywiadau mawr iawn o ran y boblogaeth yn sgil ymwelwyr ac ail gartrefi.
- **mwy o ddefnydd** – mae safonau uwch bywyd modern ac argaeledd cyfarpar mwy traddodiadol a moethus yn ein cartrefi yn golygu bod cwsmeriaid bellach yn defnyddio mwy o ddŵr nag erioed sydd eto yn ychwanegu at y dŵr gwastraff sydd eisoes yn ein carthffosydd;
- **ymlusgo trefol** - wrth i drefi a dinasoedd ddatblygu, mae llai o fannau gwyrdd i'w cael bellach i amsugno dŵr wyneb. Yn aml mae'r dŵr wyneb hwn yn mynd i mewn i'n carthffosydd ac yn rhedeg yn gyflym i ffwrdd o arwynebau caled o'r fath pan fo'n glawio. Yn aml mae Awdurdodau Lleol yn

gwneud newidiadau i systemau draenio priffyrdd a strydoedd heb ymgynghori â'r cwmni dŵr ac mae hyn yn medru ychwanegu at y lefelau yn ein carthffosiaeth.

Ein perfformiad

Dros y misoedd diwethaf, bu cryn ddiddordeb yn ansawdd dŵr afonydd gan fod amgylchedd dŵr o ansawdd uchel yn hanfodol i gefnogi ecosystem iach. Bu ein rôl yn hyn o beth - ac yn arbennig, ein Gorfifiannau Stormydd Cyfun - o dan y chwyddwydr ac mae'n bwysig, er bod gwelliannau a buddsoddi hirdymor yn angenrheidiol, ein bod hefyd am osod hyn yng nghyd-destun ein perfformiad a'r angen i weithio gyda sectorau eraill i wella ansawdd dŵr afonydd.

Gweithfeydd trin dŵr gwastraff: mae perfformiad ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y dŵr gwastraff a ddychwelwn i afonydd, nentydd a'r môr o'r ansawdd uchaf. Mae ein rheoleiddwyr amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd) yn rhoi 'trwydded gwaredu' ar gyfer pob safle, sy'n gosod y safon ar gyfer y ffordd mae angen i'r dŵr gwastraff gael ei drin cyn y gall ddychwelyd i'r amgylchedd ac mae bron 99% o ddŵr gwastraff bellach yn cael ei drin i'r safonau a bennir gan y trwyddedau hyn. Rhan allweddol o hyn yw gwaredu ffosfforws mewn dŵr gwastraff ac rydym wedi buddsoddi £56 miliwn i leihau faint o ffosfforws a ryddhawyd o 14 o weithfeydd trin dŵr gwastraff rhwng 2015 a 2020 a buddsoddi £70 miliwn arall yn y pum mlynedd hyd at 2025 yn 19 o'n gweithfeydd trin. Fodd bynnag, mae buddsoddiad o'r fath hefyd yn cynyddu ein costau gweithredu, yn ariannol ac o ran carbon – mae ein rhaglen gwaredu ffosfforws yn unig ar gyfer 2015-20 wedi cynyddu ein costau gweithredu dros £1 filiwn y flwyddyn, a gall y rhan fwyaf o hynny gael ei briodoli i fwy o ynni, defnydd o gemegau a thrin biosolidau, sydd i gyd yn cynyddu ein hól troed carbon.

Llygredd: gall problemau gyda charthffosydd a gorsafoedd pwmpio (megis blociadau neu gwympiadau mewn carthffosydd) yn aml achosi llygredd a all niweidio'r amgylchedd lleol yn cynnwys afonydd. Caiff y digwyddiadau hyn eu categoreiddio gan ein rheoleiddwyr amgylcheddol, gyda phob digwyddiad yn amrywio o gategori 1 (difrifol) i gategori 3 (llai difrifol). Ni oedd un o'r cwmnïau gwaethaf o ran perfformiad ddegawd yn ôl, ond rydym bellach yn un o'r cwmnïau gorau o ran nifer y digwyddiadau o lygredd. Yn 2020, cafodd 80% o'r llygredd ei achosi gan flociadau ac mae 74% o'r digwyddiadau o lygredd bellach yn cael eu hachosi gan drydydd partion - nid ein hasedau ni - yn gwaredu eitemau amhriodol mewn toiledau a charthffosydd sydd wedyn yn achosi blociadau.

Gorfifiannau Stormydd Cyfun: gorfifiannau yw'r rhain sy'n rhan o'r garthffos neu'r orsaf bwmpio i ryddhau dŵr gwastraff er mwyn atal carthffosydd a gweithfeydd trin rhag cael eu gorlethu yn ystod cyfnodau o law trwm a llifo i mewn i eiddo cwsmeriaid. Gan fod y rhan fwyaf o'r rhwydwaith carthffosydd yng Nghymru wedi'i hadeiladu cyn y 1970au, mae'n 'gyfun', gan gymryd dŵr glaw a dŵr gwastraff. Rhaid i'r system yng Nghymru weithredu mewn amodau hinsoddol sy'n wlypach na chyfartaledd y DU, ac felly mae gennym rai o'r niferoedd uchaf o'r gorfifiannau hyn am bob 1,000km o garthffos yn y diwydiant.

Caiff y gollyngiadau o'r gorfifiannau hyn eu rheoleiddio drwy drwyddedau a roddir gan ein rheoleiddwyr amgylcheddol ond gwyddom fod angen inni ddeall yn well sut maent yn perfformio. Dyma pam rydym wedi arwain y diwydiant o ran buddsoddi dros £10.5 miliwn mewn gosod dyfeisiau monitro Monitro Hyd Digwyddiad ar fwy na 99% o'n gorfifiannau. Mae'r dyfeisiau monitro hyn yn dweud wrthym pryd mae gorfifiannau wedi gollwng ac am faint, sy'n ein helpu i wella ein dealltwriaeth o sut mae ein hasedau yn perfformio a bydd yn llywio ein gwaith a'n buddsoddiadau yn y dyfodol. Cyhoeddwn yr holl ddata hyn ar

ein gwefan ac rydym hefyd yn darparu Gwasanaeth Rhybuddio Amser Real ar gyfer gorlifiannau drwy gydol y flwyddyn ar 30 o safleoedd ymdrochi yng Nghymru sy'n darparu gwybodaeth amser real i ddefnyddwyr cofrestredig pan fydd gorlifiannau yn dechrau gweithredu ac yn stopio. Darparwn y gwasanaeth hwn yn wirfoddol i reolwyr traethau, megis yr Awdurdod Lleol a Surfers Against Sewage ar gyfer ei wefan a'i ap Safer Seas Service - a chaiff rhybuddion eu hanfon i Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

Yn ei ddata diweddaraf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod gorlifiannau yn rheswm tebygol neu bendant am beidio â chyflawni statws da mewn 4.6% o gyrff dŵr. Fodd bynnag, er bod gorlifiannau yn gweithredu'n bennaf fel y'u dyluniwyd ac y'u trwyddedwyd, gallant ollwng yn amlach oherwydd y canlynol:

- gorlwytho hydrologig o lifau cynyddu ers i'r garthffos gael ei dylunio'n wreiddiol. Gall hyn gael ei achosi gan y canlynol: o ganlyniad i gysylltu arwynebau anhydraiddd ychwanegol â'r rhwydwaith carthffosiaeth (twf mewn tai/busnesau a phan osodir pafin dros ardaloedd hydraiddd); mwy o law yn gyffredinol a glaw mwy dwys oherwydd newid yn yr hinsawdd; mwy o boblogaeth wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosydd; problemau gyda'r rhwydwaith (e.e. siltio ac ymdreiddio) – gwaethygir hyn i gyd o ystyried natur 'gyfun' ein carthffosydd sydd yn aml angen cario dŵr wyneb a dŵr gwastraff;
- cam-gysylltu systemau draenio tir megis o dir fferm ond hefyd ymdreiddio i mewn i'r rhwydwaith carthffosydd, lle mae dŵr yn mynd i mewn i'r rhwydwaith carthffosydd drwy graciau neu uniadau sydd wedi dod yn rhydd yn y bibellwaith;
- blociadau (dros 20,000) a achosir gan eitemau 'na ellir eu fflysio' y mae cwsmeriaid yn eu gwaredu i garthffosydd (e.e. weips gwlyb neu olew coginio). Rydym yn cynnal ymgyrch newid ymddygiad bob blwyddyn i addysgu cwsmeriaid i fod yn fwy gofalus pan fyddant yn fflysio neu'n taflu rhywbeth mewn ymgeis i leihau'r gost flynyddol o £7 miliwn yn clirio 2,000 o flociadau y mis yn ein carthffosydd;
- carthffosydd yn dymchwel a'r system garthffosydd yn dirywio

Gallai'r gwaith o gael gwared ar ein holl orlifiannau carthffosydd cyfun a dileu gollyngiadau ofyn am ddyblygu ein holl rwydwaith carthffosydd presennol bron, a chostio rhwng £9 a £14 biliwn yn ôl yr amcangyfrifon (i gymharu hyn, mae ein buddsoddiad cyfan yn ein holl wasanaethau yn costio £1.8 biliwn rhwng 2020 a 2025) a byddai'n cynyddu biliau cwsmeriaid yn sylweddol – gan ychwanegu cannoedd o bunnoedd at fil pob cwsmer. Mae ceisio lleihau "gollyngiadau" mewn ffyrdd traddodiadol megis adeiladu tanciau storio concriid mawr i gadw'r dŵr yn ôl yn defnyddio cryn garbon, gall achosi mwy o arogl gwael ac mae'n anodd ei addasu i hinsawdd sy'n newid.

Ein heffaith ar ansawdd dŵr afonydd

Mae ein buddsoddiad dros yr 20 mlynedd diwethaf a'r cydweithio â rhanddeiliaid wedi chwarae rôl allweddol yn sicrhau bod 39.22% o gyrff dŵr Cymru yn cael eu hystyried yn 'Statws Ecolegol Da neu Uchel' (o gymharu ag 16% yn Lloegr) yn ôl asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn 2021.

Fel cwmni a berchenogir ar ran cwsmeriaid, mae'n hanfodol bod unrhyw fuddsoddiad a wnawn yn seiliedig ar dystiolaeth ac wrth baratoi ein Cynllun Busnes cyfredol (2020-25), gwnaethom ddatblygu ein rhaglen ymchwil fwyaf erioed i sicrhau ein bod yn gallu deall effaith ein gwaith a lle mae angen inni dargedu unrhyw fuddsoddiad.

Ategir hyn hefyd gan ymchwil ehangach i ansawdd ein dyfroedd mewndirol ac mae ymchwil ddiweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru [2020] yn dangos nad ni yw prif achos methiant cyrff dŵr i gyflawni 'statws ecolegol da'. Gall nifer o sectorau eraill gael eu nodi i helpu i wella ansawdd dŵr afonydd yn cynnwys y canlynol: dyfroedd mwynloddio, rheoli da byw, rheoli tir, ystadau diwydiannol, gollyngiadau carthffosydd bach (preifat), cam-gysylltu systemau draenio, draenio dŵr wyneb o ardal ddatblygedig a storio - slyri, tanwydd, olew a chemegau.

Felly ni allwn wella ansawdd dŵr afonydd ar ein pen ein hunain. Dangosir yr angen i fynd ati i wella ansawdd dŵr afonydd mewn ffordd gydweithredol aml-sectoraidd gan y gwaith modelu ansawdd dŵr System Gwybodaeth Graffigol Dosrannu Ffynonellau (SAGIS) rydym wedi'i wneud ar afon Gwy ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dŵr croyw eraill yng Nghymru. Mae'r system hon, a ddatblygwyd ac a ddefnyddir gan reoleiddwyr a'r diwydiant ehangach, wedi ein galluogi i greu cynrychioliad rhithiol o afon Gwy. Cymera fewnbynau data o wahanol ffynonellau a sectorau a noda gyfran y ffofforws o bob un. Mae'r model yn ein galluogi i brofi gwelliannau arfaethedig yng gollyngiadau ein gweithfeydd trin carthion er mwyn nodi eu heffaith ar ansawdd dŵr yn yr afon. Mae gwaith modelu SAGIS ar afon Gwy wedi dangos bod ein hasedau yn cyfrif am ryw draean o'r ffoffadau yn yr afon, ac mai amaethyddiaeth a rheoli tir yw'r brif ffynhonnell (amlygwyd hyn yn yr adroddiad 'Ansawdd Dŵr mewn Afonydd' a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin – Ionawr 2022). Rydym yn gweithio ar gwblhau gwaith modelu tebyg yn ystod 2022 ar gyfer yr wyth afon arall mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Nghymru p'un a ydynt yn methu â chyrraedd y safon ai peidio.

Sut rydym yn ymateb

Serch hynny, gwyddom fod ein hasedau yn gallu effeithio ar ansawdd dŵr afonydd ac mae ymchwil Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif nad yw 22.5% o gyrff dŵr unigryw yng Nghymru yn cyflawni 'Statws Da' neu mae'n bosibl na fyddant yn cyflawni hynny oherwydd effaith ein gweithrediadau. Mae sawl rheswm dros hyn ond mae a wnelo'r prif achosion â'r lefelau uchel o ffofforws neu amonia mewn afonydd (sgil-gynnyrch dŵr gwastraff) neu lygredd gwasgaredig (gall gorlifiannau gynyddu faint o lygryddion a geir yn y corff dŵr derbyn). Y data hyn a ddefnyddiwn mewn partneriaeth â'n rheoleiddwyr amgylcheddol i bennu natur buddsoddiad ein Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol 5 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys cryn dipyn o waith monitro ac ymchwilio pellach er mwyn helpu i symud ein dealltwriaeth o'r gollyngiadau hynny yr amheuir eu bod yn achosi niwed, i gadarnhau hynny neu gael gwared arnynt, gyda thua 5-10% o'r rhaglen fel rheol yn cael ei wario ar waith ymchwil a gwyddoniaeth bellach.

Rydym yn ymrwymedig i chwarae rhan bwysig i helpu mwy o afonydd Cymru i gyflawni Statws Ecolegol Da (fel y'i nodir yng Nghyfarwyddeb Fframwaith Cymru) ac mae hyn yn sbardun allweddol yn ein Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol bresennol gyda £250 miliwn i'w fuddsoddi rhwng 2020 a 2025. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- **ymyriadau pwrpasol i ostwng lefelau ffoffadau:** Lle mae tystiolaeth glir bod ein hasedau yn effeithio ar afonydd lleol, bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r mater hwn. Er enghraifft, rydym yn buddsoddi £70 miliwn dros y pum mlynedd nesaf i waredu mwy o ffofforws mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn yr ardal a wasanaethwn.
- **cydweithio a rhannu gwersi â rhanddeiliaid allweddol eraill:** gyda chynifer o sectorau yn aml yn dylanwadu ar ansawdd dŵr afonydd, gall weithiau fod yn anodd cael un cynllun clir i wneud gwelliannau. Nid yw pob sector wedi'i gymell i gydweithio na gwella ac weithiau gall camau

gweithredu flaenoriaethu cyfleustra byrdymor dros yr effaith hirdymor. Ceir astudiaeth achos ar gyfer goresgyn hyn wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Maethynnau Afon Gwy a luniwyd gyntaf gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England yn 2014, gan gydnabod y targedau gofynnol o ran ffosfforws i'w cyflawni drwy weithgareddau nifer o sefydliadau a sectorau gwahanol yn cydweithio (rheoleiddwyr amgylcheddol, cyrff cynghorau, sefydliadau trydydd sector a Dŵr Cymru) oherwydd ni all sefydliad na sector unigol ddatrys y broblem o ran ffosffadau ar ei ben ei hun. Bu trywydd o'r fath yn hanfodol er mwyn ein galluogi i nodi a blaenoriaethu ein buddsoddiad yn yr ardal hon gyda chefnogaeth Bwrdd Rheoli Maethynnau Afon Gwy Cyngor Swydd Henffordd - un o'r unig gyrff sydd â chyfrifoldebau ar draws y ffin ar hyn o bryd. Datblygir trywydd cydweithredol tebyg ar gyfer afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig eraill yng Nghymru a byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn.

- **cynlluniau arloesol i gyflwyno atebion carbon isel yn seiliedig ar natur i wella ansawdd dŵr afonydd a gwrthbwysu effaith datblygiadau:** rydym yn gweithio gyda Sefydliad Gwy ac Wysg a Chyngor Henffordd i gefnogi mesurau i waredu ffosfforws ychwanegol o'n helifion wedi'u trin uwchlaw'r hyn sy'n ofynnol o dan eu trwyddedau drwy sefydlu safleoedd trin gwlyptiroedd carbon isel a fydd yn gwrthbwysu effaith datblygiadau. Bydd y rhain ar ffurf cyfres o byllau rhyng-gysylltiedig sy'n darparu proses hidlo naturiol i wella ymhellach ansawdd dŵr a ddychwelir i'r afon drwy waredu llygryddion a maethynnau nad oes eu heisiau (e.e. amonia, nitrogen a ffosfforws) yn naturiol wrth hefyd wella bioamrywiaeth leol. Dechreuir adeiladu'r safle cyntaf ym mis Ionawr 2022 ac mae wedi'i gynllunio i wrthbwysu effaith datblygiadau a chyflawni gwelliant net i ansawdd dŵr. Hefyd, rydym yn bwriadu mynd ar drywydd atebion tebyg yn seiliedig ar natur wrth ymdrin â gorlifiannau sy'n gollwng cryn dipyn, ac yn ddiweddar cawsom gymeradwyaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddechrau adeiladu cyfleuster o'r fath ym Mhont-y-felin, ger Pontypŵl.
- **buddsoddiad yn seiliedig ar dystiolaeth i leihau'r ddibyniaeth ar orlifiannau carthffosydd cyfun:** rydym wedi datblygu strategaeth newydd ar gyfer gorlifiannau sy'n nodi ein huchelgais i leihau ymhellach y ddibyniaeth ar orlifiannau o'r rhwydwaith carthffosydd. Fel rhan o hyn buddsoddir dros £100 miliwn rhwng nawr a 2025 i sicrhau lleihad cyson mewn unrhyw effaith andwyol a achosir gan orlifiannau ar ein hafonydd a'n moroedd. Byddwn yn blaenoriaethu'r rhai sy'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar ansawdd dŵr. Yn y tymor hwy, rydym yn gweithio mewn partneriaeth i lunio Map Gorlifiannau i Gymru (a gaiff ei lunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ofwat, Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru) a'r nod yw sicrhau bod rôl gorlifiannau yng Nghymru yn cael ei deall, ei gwella, ac yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif a'r heriau a wynebwn. Hefyd, rydym yn datblygu ein Cynllun Rheoli Dŵr Gwastraff a Draenio cynhwysfawr cyntaf erioed sy'n ystyried sut y gallwn weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i leihau'r perygl o lifogydd a'n heffaith ar yr amgylchedd rhwng nawr a 2050.

Er bod y ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr yn bellgyrhaeddol ac yn amrywio o fewn dalgylchoedd, rydym yn llwyr ymwybodol bod y cyhoedd yn pryderu fwyfwy am y defnydd o orlifiannau. Fodd bynnag, ni ddylai'r gwaith dan sylw i leihau ein dibyniaeth ar orlifiannau gael ei danamcangyfrif o ystyried bod y rhan helaeth o'n rhwydwaith carthffosydd yn 'gyfun'. Mae hyn yn golygu mai dim ond un bibell sydd fel arfer sy'n casglu dŵr glaw sy'n rhedeg oddi ar gwteri, draeniau a ffyrdd yn ogystal â'r dŵr gwastraff o

gartrefi a busnesau. Mae hyn yn lleihau capasiti ein rhwydwaith ac yn effeithio ar ei brif amcan – cario dŵr gwastraff.

Gwnaethom lawn gefnogi Safonau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy a gyflwynwyd yn 2016 (sicrhau bod datblygiadau newydd yn dilyn arfer dda gan ddefnyddio dull draenio cynaliadwy (SuDS)) oherwydd mae hyn wedi lleihau faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n rhwydwaith carthffosydd o ddatblygiadau newydd o gymharu â'r hyn oedd ar waith cynt. Gwnaethom hefyd gefnogi Llywodraeth Cymru pan gychwynnodd atodlen 3 i'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2019.

Dangosir gwir faint yr her sydd ynghlwm wrth ôl-osod ein rhwydwaith i leihau faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd a, lle bo modd, ei ddal, ei ailgyfeirio a'i arafu, gan y buddsoddiad yn ein cynllun SuDS ôl-osod llwyddiannus (sef 'GlawLif') yn Llanelli a Thre-gŵyr. I helpu i leihau llifogydd a gwella ansawdd dŵr yn Aber Afon Llŵchwr (y gwnaeth gorlifiannau yn gweithredu'n amlach na'r hyn a fwriadwyd effeithio arno, a achoswyd yn ei dro am fod Llanelli yn gweld bron cymaint o ddŵr storm yn ei rhwydwaith ag Abertawe, sydd â theirgwaith yn fwy o eiddo), gwnaethom fuddsoddi £115 miliwn yn y ddwy ardal rhwng 2012 a 2020, gan osod tua 14 milltir o bibellwaith a systemau draenio cyrb newydd, adeiladu twnnel newydd ychydig o dan filltir o hyd dan ddaear i greu carthffosydd dŵr glaw a phlannu bron 10,000 o blanhigion a choed mewn pantiau, planwyr a basnau. Yn sgil y prosiect gwelwyd gostyngiad o 95% yn y swm a rannwyd o orlifiannau, lleihawyd y perygl o lifogydd ac mae'n atal 1.5 miliwn m³ arall o ddŵr wyneb y flwyddyn rhag mynd i mewn i'r rhwydwaith.

Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynllun tebyg, sef Grangetown Werddach, gan gyfrannu £1 filiwn i gael gwared ar fwy na 40,000m³ o ddŵr glaw bob blwyddyn rhag mynd i mewn i'r rhwydwaith carthffosydd cyfun fel rhan o brosiect adfywio trefol Grangetown, Caerdydd. Mae'r cynlluniau hyn yn dangos nad oes 'ateb cyflym' nac 'ateb hawdd' i leihau ein dibyniaeth ar orlifiannau yn y byrdymor oherwydd bydd yn gofyn am gryn fuddsoddiad a chydweithio. Fodd bynnag, mewn partneriaeth ag eraill, gallwn sicrhau mwy o fuddiannau i'r cymunedau a wasanaethwn na gweithio'n unigol.

Crynodeb

- Mae rhaglen fuddsoddi Dŵr Cymru ymhell ar ei hynt a fydd yn helpu i leihau effaith ei asedau a'i weithrediadau ar ansawdd dŵr afonydd. Bob pum mlynedd rydym yn gweithio gyda'n rheoleiddwyr amgylcheddol i bennu cwmpas Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol sydd wedi arwain at wario cannoedd o filiynau o bunnoedd o arian cwsmeriaid ar leihau gollyngiadau o weithfeydd trin, mynd i'r afael â dŵr storm, gorlifiannau a gollyngiadau achlysurol eraill er mwyn gwella ansawdd dŵr yn yr ychydig gylchoedd buddsoddi busnes neu Gyfnodau Rheoli Asedau 5 mlynedd diwethaf. Rydym hefyd yn cynnal ac yn adrodd ar ymchwiliadau i bennu ble mae ein gweithrediadau yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ac i helpu i lywio'r cynllun buddsoddi ar gyfer y Cyfnod Rheoli Asedau (AMP) nesaf yn 2025-30.
- Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Mae gweithio mewn partneriaeth (rhwng Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, amaethyddiaeth, priffyrdd a sectorau eraill) yn allweddol er mwyn gwella ansawdd dŵr afonydd a diogelu rhag llifogydd yn yr hirdymor. Er enghraifft, rhaid cael gwared ar ddŵr wyneb o'r rhwydwaith carthffosydd er mwyn lleihau gollyngiadau o'r

rhwydwaith ac adfer ei allu i ateb y galw yn y dyfodol. I gyflawni hyn bydd angen gweithio mewn partneriaeth gryn dipyn ag awdurdodau lleol a chyllid.

- Mae'r gwaith sydd ei angen i wella ansawdd dŵr afonydd yn brosiect hirdymor ac mae'n gofyn am gefnogaeth rheoleiddwyr a'r llywodraeth, yn debyg i'r buddsoddiad o 20 mlynedd a wnaed i wella ein dyfroedd arfordirol. I helpu i sicrhau bod gan Gymru bellach draean o'r Baneri Glas yn y DU er mai dim ond 15% o arfordir Prydain Fawr sydd yma (gyda 100% o ddyfroedd ymdrochi bellach yn bodloni gofynion o gymharu â 12% yn 1990), bu'n rhaid inni fuddsoddi dros £1 biliwn dros AMPau 5 mlynedd dilynol i sicrhau ein bod yn cadw biliau'n fforddiadwy hyd at 2010 ac rydym wedi parhau i fuddsoddi arian ein cwsmeriaid ers hynny. Gall fod angen lefelau tebyg o fuddsoddi ar draws sawl sector yn y degawd nesaf ac yn y tymor hwy i gyflawni amcanion ansawdd dŵr afonydd neu ddatblygu dyfroedd ymdrochi mewndirol newydd mewn ffordd sy'n gydnaws â'n hamcanion di-garbon, er mwyn cynnal y safonau hyn.
- Gall cwsmeriaid helpu i wella ansawdd dŵr afonydd drwy beidio â fflysio weips gwlyb a bod yn ymwybodol o'r hyn sydd yn cael ei fflysio i mewn i'r draeniau lleol sydd yn aml yn cysylltu gyda dyfrffyrdd (sydd yn medru golygu bod ffosffadau neu lanedyddion tra'n golchi ceir yn medru mynd yn syth i mewn i'r afonydd). Gan adeiladu ar ein hymgyrch 'Stop Cyn Creu Bloc', mae angen inni drawsnewid dealltwriaeth y cyhoedd o ddŵr a'r amgylchedd dŵr, gyda ffocws penodol ar addysg, gwybodaeth a chymorth i newid ymddygiad. Cefnogwn a disgwyliwn gamau nesaf cynnig Llywodraeth Cymru i wahardd plastig defnydd untro oherwydd bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar weips a deunydd arall 'na ellir ei fflysio' a gaiff eu fflysio. Mae hyn yn allweddol er mwyn lleihau faint o sbwriel sy'n mynd i mewn i'r rhwydwaith carthffosydd, gan achosi blociadau a llygru'r amgylchedd dŵr.

Mae hyn oll yn creu cyfle i ddilyn trywydd 'gorau chwarae cyd chwarae' wrth inni anelu at sicrhau bod ein Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol nesaf ar gyfer 2025-30 yn parhau i weithio i Gymru ac yn ein galluogi i chwarae ein rhan i ddiogelu'r amgylchedd yn ystod y 'degawd o weithredu' fel y'i disgrifiwyd gan y Prif Weinidog Mark Drakeford.

Cymerwn ein holl gyfrifoldebau o ddifrif, yn enwedig ein dyletswydd i ddiogelu'r amgylchedd ac ansawdd dŵr afonydd, ac rydym yn falch ein bod wedi ennill y radd 4* uchaf ym mis Gorffennaf 2021 ar ôl cyflawni neu ragori ar dargedau wedi'u pennu ar gyfer ein perfformiad amgylcheddol fel y'i mesurir gan ein rheoleiddwyr amgylcheddol, gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i wneud popeth y gallwn i ddiogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, a chaiff ein huchelgeisiau eu llywio gan ein dyhead i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mor hanfodol yn wyneb heriau hinsoddol, economaidd a chymdeithasol sylweddol ond hefyd fel gwarcheidwaid amgylcheddol, ein bod yn gadael yr amgylchedd mewn gwell cyflwr i genedlaethau'r dyfodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'S.W.', with a horizontal line extending to the right.

Steve Wilson,

Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru